# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**:<br>Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: 14/09/4 |
| **Dyddiad**: | **15 Medi 2014** |
| **Manylion cyswllt:** | Tîm y Blynyddoedd Cynnar<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>earlyyears@wales.gsi.gov.uk |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☒ Polisi
- ☐ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**

Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**

Gan fod y Cynllun 10 Mlynedd ar ffurf ddrafft o hyd nid yw'r holl gostau wedi'u pennu. Eto i gyd, rhagwelir y byddai'r costau presennol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn ffurfio rhan o gost gyffredinol gweithredu cynigion y cynllun. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu tua £2 filiwn y flwyddyn at raglen hyfforddi Cam Wrth Gam sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ymarferwyr ofal plant.

Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru'n ariannu gwaith y Cylchoedd Meithrin a'r grwpiau Ti a Fi. Mae'r grwpiau hyn hefyd yn darparu rhwydwaith cymdeithasol sy'n galluogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Medi 2014: Lansio ymgynghoriad ar y Cynllun drafft 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu
Rhagfyr 2014: Ymgynghoriad yn dod i ben, Gweinidogion yn ystyried yr ymatebion
Gwanwyn 2015: Cyhoeddi Cynllun terfynol 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu a dechrau gweithredu'r cynigion

## CAM 1: CYNLLUNIO

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**
**Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Cafwyd ymrwymiad yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013) i ymgynghori ynghylch y dull cywir ar gyfer y gweithlu gofal plant yng Nghymru o safbwynt isafswm lefelau cymwysterau, arweinyddiaeth graddedigion, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfa.

Cytunodd y Gweinidogion ein bod eisiau sicrhau gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ymhen 10 mlynedd:

- sy'n uchel ei barch (ac yn yrfa ddeniadol);
- sy'n deall sut y mae plant yn dysgu ac yn datblygu;
- sy'n strwythuro gweithgareddau ac amser er mwyn cefnogi pob plentyn i ddatblygu hyd eithaf ei allu;
- sy'n awyddus i barhau i ddysgu; ac
- sy'n ddwyieithog.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon cytunwyd y byddai cynllun drafft ynghylch y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ar gyfer y deng mlynedd nesaf yn cael ei ddatblygu. Y nod oedd creu proffesiwn uchel ei barch a all recriwtio ymgeiswyr o safon uchel a hefyd gadw gweithlu medrus sy'n anelu at ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus.

Mae'r Cynllun drafft 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru, a ddatblygwyd drwy ymwneud yn helaeth â rhanddeiliaid allweddol, yn cyflwyno cynigion o dan dair thema lefel uchel:

- Arweinyddiaeth
- Denu ymgeiswyr newydd sydd o safon uchel
- Codi sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol

Rydym yn gwybod bod addysg gynnar a gofal plant o'r radd flaenaf yn arwain at well canlyniadau ar gyfer plant, ac yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein hymarferwyr blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gefnogaeth orau i blant, gan eu hannog i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Fel y nodir uchod, un o nodau lefel uchel y Cynllun Drafft 10 Mlynedd yw datblygu gweithlu cynyddol ddwyieithog. Bydd datblygu sgiliau Cymraeg gweithlu'r sector yn gwbl allweddol ar gyfer cyflawni'r nod hwn.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**
**a**
**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Os na fydd y polisi hwn yn mynd rhagddo o fewn yr amserlenni a nodir yn y Cynllun Drafft 10 Mlynedd nid ydym yn debygol o allu sicrhau gweithlu o'r radd flaenaf ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn arwain at sawl canlyniad:

1. Bydd effaith negyddol ar ddysgu a datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar, a fydd yn parhau i effeithio ar eu cyrhaeddiad gydol eu gyrfa ysgol.
2. Bydd gyrfaoedd o fewn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cael eu hystyried yn fwyfwy fel llwybrau gwaith sy'n gofyn am lefel isel o sgiliau. Nid yw hyn yn adlewyrchu'n gywir swyddogaeth allweddol yr ymarferwyr hyn o safbwynt dysgu a datblygiad plant.
3. Bydd Cymru ar ei hôl hi o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU lle y mae camau'n cael eu cymryd i gyflwyno cymwysterau proffesiynol ar gyfer y gweithlu hwn neu i annog arweinyddiaeth gan raddedigion o fewn y sector.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?**

Rhagwelir y bydd y Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu yn cefnogi amcanion polisi Iaith fyw: iaith byw.

Wrth i'r Cynllun gael ei weithredu dros gyfnod o 10 mlynedd byddem yn disgwyl iddo helpu gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Trwy wella sgiliau Cymraeg ymarferwyr mae ansawdd a maint y Gymraeg o fewn ysgolion a lleoliadau'n debygol o wella.

Rhagwelir hefyd y bydd y Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, dros amser. Dylai hyn ei gyflawni drwy gynyddu sgiliau a hyder ymarferwyr a all siarad Cymraeg a hefyd drwy greu rhagor o gyfleoedd i blant yn y blynyddoedd cynnar glywed pobl eraill yn siarad Cymraeg. Bydd hyn yn annog plant o gartrefi di-Gymraeg i ddechrau defnyddio'r Gymraeg. Yn y tymor hwy gallai hyn ei gwneud hi'n haws i drosglwyddo'r iaith o fewn cartrefi.

Dylai cymorth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth o fewn y sector helpu i atgyfnerthu seilwaith y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae sydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

| **Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg? |
|---|
| Fel y nodir uchod, un o amcanion allweddol y Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu yw hwyluso datblygiad gweithlu dwyieithog ar gyfer sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. O'r herwydd, byddem yn rhagweld y byddai effaith y cynllun ar y Gymraeg yn bositif.<br><br>Dylai cynigion y Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu, o'u gweithredu, gyfrannu at:<br><br>• Gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg gynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg<br>• Ei gwneud hi'n haws i leoliadau recriwtio ymarferwyr o'r radd flaenaf ar gyfer y blynyddoedd cynnar sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol. |
| **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?** |
| Nod y Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach, ond hefyd wella hyder pobl na allant siarad Cymraeg i gefnogi datblygiad Cymraeg eu plant drwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn eu bywydau bob dydd. O'r herwydd mae'n cwmpasu ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys:<br><br>• Holl ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae (a all siarad Cymraeg neu beidio)<br>• Plant yn y grŵp oedran 0-7 (y blynyddoedd cynnar)<br>• Rhieni plant yn y blynyddoedd cynnar (a alla siarad Cymraeg neu beidio)<br>• Darpar weithwyr y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae (a all siarad Cymraeg neu beidio)<br><br>Mae'r Mudiad Meithrin, sef sefydliad gwirfoddol sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Drafft 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu ac mae wedi cefnogi ein huchelgais i ddatblygu sgiliau Cymraeg o fewn y sector. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Amherthnasol |

| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
|---|
| Gofynion o ran data:<br><br>• Gwybodaeth am hyfforddeion Cam Wrth Gam (neu gynlluniau hyfforddiant yn y dyfodol) a'u lleoliad gwaith – bydd hyn yn ein galluogi i fesur effaith y rhaglen o safbwynt adeiladu capasiti'r sector yn y Gymraeg.<br>• Gwerthusiadau o gyrsiau sgiliau Cymraeg sylfaenol sy'n cael eu treialu o fewn y sector ar hyn o bryd, er mwyn asesu pa mor effeithiol ydynt wrth gynyddu hyder pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.<br><br>Ymgysylltu allanol:<br><br>• Byddwn yn ymgysylltu ag ymarferwyr mewn ysgolion/lleoliadau Cymraeg fel rhan o'r broses ymgynghori, pan fyddwn yn gwahodd sylwadau ynghylch yr effeithiau posibl ar y Gymraeg ac ynghylch y cynigion ar lefel fwy gyffredinol. |

**Datganiad**

| **Arweinydd polisi:**<br><br>***Dileer fel y bo'n briodol*:**<br><br>***Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
|---|
| Enw: |
| |
| Adran:  Yr Adran Addysg a Sgilliau a Yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi |
| |
| Dyddiad(au): Medi 18, 2014 |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiadau adolygu: Ionawr 2015 |

| ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad 19/09/14 |
| | |
| Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |